# Strategaeth ar gyfer 2021-26

Rhagfyr 2021

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

# Cynnwys


1. Rhagair y Cadeirydd ....3
2. Y Bwrdd ar dudalen ....4
3. Cyflwyniad ....5
    - Egwyddorion arweiniol y Bwrdd ....5
    - Dehongli ein hegwyddorion arweiniol ....5
4. Heriau'r dyfodol ....7
5. Amcanion strategol 2021-26 ....8
    - Amcan 1: Penderfyniad sy'n ymateb i gyd-destun newidiol. ....8
    - Amcan 2: Symleiddio'r Penderfyniad gyda mesurau diogelu cymesur ....9
    - Amcan 3: Penderfyniad cynaliadwy ....9
    - Amcan 4: Ennyn ffydd ac ymgysylltu ....9
6. Dull y Bwrdd o gyflawni ei flaenoriaethau ....11
    - Mesur ein heffeithiolrwydd ....11

# 1. Rhagair y Cadeirydd

Mae'r heriau sy'n wynebu'r Senedd a'i Haelodau dros y blynyddoedd nesaf yn wahanol iawn i heriau unrhyw un o'i rhagflaenwyr.

Mae agenda diwygio'r Senedd yn cael ei hystyried ar hyn o bryd ac mae'r cyfansoddiad y mae'r Senedd yn gweithredu oddi mewn iddo yn parhau i ddatblygu. Ar yr un pryd, mae Aelodau wedi bod yn ymgymryd â'u dyletswyddau drwy'r amgylchiadau heriol sydd wedi codi o ganlyniad i bandemig iechyd byd-eang. Mae wedi codi cwestiynau ynghylch trefniadau gweithio i'r Aelodau a'r Senedd yn y dyfodol. Mae cymunedau yng Nghymru yn teimlo effaith newid hinsawdd ac mae cyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg i newid ein ffordd o fyw. Mae'n amlwg bod gan bawb rôl i'w chwarae o ran lleihau ôl troed carbon y wlad.

Mae pob Aelod i bob pwrpas yn rhedeg busnes bach i gynrychioli eu hetholwyr a dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chyflawni a dylai'r Penderfyniad eu galluogi i ddewis y ffordd orau o ddefnyddio eu hadnoddau i gyflawni eu blaenoriaethau busnes eu hunain a'u costau cysylltiedig. Mae angen iddo fod yn glir ac yn syml i'w ddeall, tra'n cynnal y mesurau diogelu sydd eu hangen i ennyn ffydd y cyhoedd yn yr Aelodau sy'n atebol iddynt.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ystyried yr heriau hyn, a pha ddylanwad y gallant ei gael ar ein rhaglen waith strategol. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hymateb a'n hamcanion strategol ar gyfer 2021-26, a fydd yn parhau hyd at etholiad nesaf y Senedd.

Fel Bwrdd, rydym yn annibynnol ar y Senedd a Chomisiwn y Senedd. Rydym yn ymwybodol bod hyder a ffydd y cyhoedd yn y Senedd yn cael eu dylanwadu gan ganfyddiadau o'r fframwaith rheoleiddio ariannol ar gyfer cymorth a chostau busnes yr Aelodau, sy'n cael ei bennu gennym ni. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn bwriadu ymgysylltu â chynulleidfa fwy eang nag erioed o'r blaen.

Gobeithiwn y bydd cyhoeddi'r strategaeth hon yn gynnar yn ein galluogi i gael deialog agored gyda'r rhai y mae gwaith y Bwrdd yn effeithio arnynt, ynghyd â'r rhai sydd â diddordeb yn y gwaith hwnnw.



Dr Elizabeth Haywood
Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd


# BWRDD TALIADAU ANNIBYNNOL Y SENEDD

## EIN DIBEN


Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus Cymreig.

## EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.



Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.



Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.



Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

## EIN NODAU AR GYFER Y TYMOR

Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd.

Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.**

## EIN HAMCANION STRATEGOL

**PENDERFYNIAD YMATEBOL:** cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.

**PENDERFYNIAD SYMLACH:** symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

**PENDERFYNIAD CYNALIADWY:** cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

**HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU:** ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

## SUT BETH FYDD LLWYDDIANT

Mae Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawn ac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn glir.

Mae gan Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.

Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cefnogaeth ariannol i Aelodau yn darparu gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.

# 3. Cyflwyniad

**1.** Diben y ddogfen hon yw nodi blaenoriaethau strategol y Bwrdd yn ystod y Chweched Senedd a'i waith o ran paratoi Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Bydd ei waith yn cael ei lywio gan yr ysgogwyr a’r heriau  amlinellir yn adran 4.

## Egwyddorion arweiniol y Bwrdd

**2.** Mae egwyddorion arweiniol y Bwrdd wedi bod yn sail i'w waith a'i benderfyniadau ers ei dymor cyntaf. Mae'r rhain bellach yn rhan o Benderfyniad y Chweched Senedd er mwyn helpu tryloywder a dealltwriaeth o broses y Bwrdd o wneud penderfyniadau.

**3.** Yr egwyddorion sy'n llywio'r Bwrdd wrth wneud penderfyniad yw:

- *dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i Aelodau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Aelodau;*
- *rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;*
- *a rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy a rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.*

## Dehongli ein hegwyddorion arweiniol

**4.** Hyd yma, mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynaliadwyedd adnoddau a gwerth am arian o safbwynt pobl ac o safbwynt ariannol. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen datgarboneiddio ein cymdeithas fyd-eang ar frys mewn ymateb i newid hinsawdd. Yng ngoleuni’r ystyriaeth hon er budd y cyhoedd, mae'r Bwrdd o'r farn y dylai roi mwy o bwys ar hyn yn ei egwyddorion arweiniol.

**5.** Felly, bydd y Bwrdd yn dehongli'r cyfeiriadau at "gynaliadwy" a "gwerth am arian" yn ei egwyddorion arweiniol i gynnwys defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn ddoeth, sy'n cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol ac at droi Cymru’n gymdeithas carbon isel.

**6.** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob penderfyniad yn ystyried anghenion amrywiaeth ac yn gynhwysol, a bydd yn parhau i asesu effaith ei benderfyniadau ar gydraddoldeb i'w helpu i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**7.** Mae gwybodaeth am swyddogaethau statudol y Bwrdd fel y'u nodir ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur) ar gael ar ei wefan, ynghyd â gwybodaeth bellach am aelodau'r Bwrdd.

# 4. Heriau'r dyfodol

**8.** Wrth ddatblygu ei strategaeth, mae'r Bwrdd wedi trafod heriau a chyfleoedd a allai ddylanwadu ar ei waith yn ystod ei dymor yn y swydd. Mae sawl ysgogwr sylweddol sy'n debygol o gael effaith ar waith y Bwrdd:

a. Diwygio'r Senedd – bydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn ceisio sefydlu consensws trawsbleidiol ar gynyddu maint y sefydliad a diwygio'r system etholiadol, a dylai gyflwyno adroddiad erbyn mis Mai 2022;

b. Newid cyfansoddiadol ehangach yn y DU a Chymru – mae’r cyd-destun cyfansoddiadol y mae Aelodau'n ymgymryd â'u rôl ynddo yn parhau i ddatblygu ac mae ganddo oblygiadau ar gyfer cyfrifoldebau'r Aelodau, cymhlethdod eu rôl, a'u llwyth gwaith o ran craffu a gwaith achos;

c. COVID-19 – ansicrwydd parhaus ynghylch datblygiad pandemig COVID-19 a'i effaith economaidd a chymdeithasol anhysbys yn y tymor hwy, gan gynnwys yr effaith ar sut y gall Aelodau a'u staff ddewis gweithio yn y dyfodol;

d. Newid hinsawdd – mae'r angen i gymryd camau i ddatgarboneiddio'r economi fyd-eang yn flaenoriaeth y mae pawb yn ei rhannu erbyn hyn;

e. Canfyddiadau'r cyhoedd – newidiadau o ran lefel yr ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd, agweddau cymdeithasol tuag at gynrychiolwyr etholedig ac yn arbennig y cynnydd mewn ymddygiad bygythiol ac ymosodol, a phwysigrwydd cadw Aelodau a'u staff yn ddiogel;

f. Byd digidol sy’n newid – mae'r ffordd y mae Aelodau'n defnyddio ac yn rheoli gwybodaeth ac yn cyfathrebu â'r etholwyr yn newid yn gyflym.

# 5. Amcanion strategol 2021-26

**9.** Mae'r Bwrdd hwn wedi ymrwymo i adolygu darpariaethau'r Penderfyniad yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Dyma'r meysydd blaenoriaeth o bwysigrwydd strategol y mae'r Bwrdd wedi'u nodi mewn ymateb i'r heriau a amlinellir yn adran 4. Bydd y Bwrdd yn parhau i ymateb i unrhyw heriau annisgwyl.

Ein nod ar gyfer ein tymor yw:

- galluogi Aelodau a grwpiau plaid y Chweched Senedd i wneud eu gwaith seneddol yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru; a
- pharatoi pecyn o gydnabyddiaeth ariannol a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd,

i gyd o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.

### Amcan 1: Penderfyniad sy'n ymateb i gyd-destun newidiol.

**Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i newidiadau i anghenion busnes yr Aelodau, disgwyliadau dinasyddion, a'r cyd-destun cyfansoddiadol newidiol.**

Dylai cydnabyddiaeth ariannol Aelodau adlewyrchu'n deg gyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol Aelodau a Gweinidogion, a bod yn briodol ar gyfer cyd-destun Cymru.

Dylai Aelodau a grwpiau gael lefel effeithiol a phriodol o gymorth sy'n adlewyrchu anghenion newidiol y Senedd o ran capsiti ac sy'n galluogi Aelodau i ddenu a chadw staff medrus.

Dylai’r Penderfyniad alluogi Aelodau o'r Senedd i ymgysylltu'n gynhyrchiol â dinasyddion.

Os bydd rhaglen Diwygio’r Senedd yn mynd rhagddi, bydd y Penderfyniad yn destun adolygiad cynhwysfawr i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

## Amcan 2: Symleiddio'r Penderfyniad gyda mesurau diogelu cymesur

**Bydd y Bwrdd yn ceisio symleiddio'r Penderfyniad, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd i Aelodau bennu eu blaenoriaethau eu hunain gyda mesurau diogelu cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.**

Dylai'r Penderfyniad fod yn syml, yn glir ac yn dryloyw i Aelodau a'r cyhoedd, gyda'r lefel gywir o fesurau gwirio a chydbwyso i gynnal hyder y cyhoedd.

Bydd yn rhoi hyblygrwydd i Aelodau wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch eu model busnes bach a blaenoriaethau, gyda phwyslais ar atebolrwydd yr Aelodau i'r cyhoedd.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer Aelodau drwy'r Penderfyniad a'r gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu yn ategu ei gilydd o ran cefnogi Aelodau yn effeithiol yn eu gwaith.

## Amcan 3: Penderfyniad cynaliadwy

**Bydd y Bwrdd yn ceisio cyflwyno model cymorth cynaliadwy, sy'n ystyried yr amrywiaeth o anghenion, yr argyfwng newid hinsawdd, a'r sefyllfa ariannol hirdymor yng Nghymru.**

Dylai'r Penderfyniad gynorthwyo Aelodau i ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian i ddiogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

Dylai alluogi Aelodau a'u staff i chwarae eu rhan o ran lleihau eu hôl troed carbon.

Dylai alluogi Aelodau i dalu costau busnes newidiol ac anghenion amrywiol Aelodau, eu staff a'u hetholwyr, a chaniatáu ar gyfer trefniadau gweithio cynhwysol a diogel.

## Amcan 4: Ennyn ffydd ac ymgysylltu

**Bydd y Bwrdd yn ceisio ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn gallu cynnal adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.**

Bydd y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu, yn enwedig ar gyfer materion sy'n debygol o fod yn ddadleuol.

Bydd y Bwrdd yn parhau i geisio ffurfio cysylltiadau gwaith effeithiol ag Aelodau a'u staff ledled Cymru. Bydd yn ymgysylltu'n rhithwir ac yn fwy rheolaidd i lywio ei adolygiadau.

Bydd y Bwrdd yn comisiynu mewnbwn annibynnol arbenigol pan fydd angen tystiolaeth ychwanegol.

Bydd y Bwrdd yn ceisio codi proffil ei waith er mwyn helpu i ennyn hyder y cyhoedd yn y Bwrdd fel gwarcheidwad y pwrs cyhoeddus sy’n gweithio er budd democratiaeth yng Nghymru, drwy ymgysylltu â sefydliadau dinesig a'r cyfryngau yng Nghymru.

# 6. Dull y Bwrdd o gyflawni ei flaenoriaethau

**10.** Yn hydref 2021 bydd y Bwrdd yn dechrau'r gwaith o gynnal yr adolygiad blynyddol cyntaf o'r Penderfyniad yn ystod y Chweched Senedd. Y tymor hwn, efallai y bydd angen i'n hadolygiadau blynyddol fod yn fwy sylweddol i adlewyrchu'r tybiaethau newidiol ynghylch sut mae Aelodau'n trefnu eu busnes, sy'n sail i'r Penderfyniad presennol ar gyfer y Chweched Senedd. Bydd adolygiadau blynyddol hefyd yn ystyried gweithredu darpariaethau newydd flwyddyn ar ôl eu cyflwyno. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â bwriad y Bwrdd, ac os nad ydynt, sut y gellir eu diwygio er gwell.

**11.** Bydd y Bwrdd yn meincnodi ei gynigion yn erbyn deddfwrfeydd eraill tebyg ac yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd dysgu rhwng deddfwrfeydd i gefnogi effeithiolrwydd ei waith.

**12.** Bydd y Bwrdd yn ceisio cyhoeddi Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd erbyn diwedd ei dymor pum mlynedd (h.y. Gorffennaf 2025). Nod y Bwrdd yw cyhoeddi ei Benderfyniad flwyddyn cyn yr etholiad. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch newidiadau posibl ar gyfer y Senedd nesaf, nid yw'n teimlo y gall roi ymrwymiad mor gadarn y tro hwn. Wrth i'r agenda gyfansoddiadol ddatblygu a dod yn gliriach, bydd y Bwrdd yn ailedrych ar y mater hwn.

**13.** Fel corff cyhoeddus ei hun, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd gynaliadwy ac i ddefnyddio ei adnoddau'n ddoeth. Bydd yn parhau i adolygu'r adnoddau sydd eu hangen arno gan Gomisiwn y Senedd, fel y'u darperir yn y Mesur, i ymgymryd â'i swyddogaethau a chyflawni ei strategaeth. Bydd hefyd yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gweithio o bryd i'w gilydd.

### Mesur ein heffeithiolrwydd

***Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan:***

- *Mae'r Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawn ac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn eglur.*
- *Mae gan yr Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i wneud eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.*
- *Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cymorth ariannol i Aelodau yn sicrhau gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.*